Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.irranca-davies@senedd.wales

21 Hydref 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch ar 6 Hydref 2022. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osodi Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 mewn perthynas i Gymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yn https://senedd.cymru/media/mzsiuopv/ws-ld15408-w.pdf.

Gwnaed y Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018). Maent yn gorgyffwrdd â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gallai'r darpariaethau fod wedi cael eu gwneud drwy arfer ein pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref 2022.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r diwygiadau, yn eu hanfod, fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael o fewn offeryn sengl. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru mewn modd pwyllog, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill

Cofion,

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd